# Snowdonia Society Events • April - September 2012

Join us to find out more about Snowdonia's legends, the shaping of the landscape by nature and man or learn to fix your bike or paddle a canoe! Please contact us for more details of any event and to register your interest - capacity is often limited. We look forward to seeing you at an event this summer! Events are held in English unless otherwise stated.

*DON'T FORGET our **wildlife gardening days at Tŷ Hyll** every Monday. Contact Sarah if you'd like to join the gardening team and get your hands dirty!*

## April 2012

**Sunday 29th – Bike maintenance workshop -** Dust off your bike and get it ready for summer. This workshop will cover all the basics of routine maintenance from puncture repair to replacing cables. Book early to secure a place.

## May 2012

**Saturday 5th – Summit to Sea** - An event to celebrate the official opening of the Wales Coast Path. Details tbc.

**Monday 21st – Spring migrants at Traeth Lafan & Abergwyngregyn –** A birdwatching walk with Rhys Jones. While the trees and hedges bustle with birds raising their chicks, others stop to feed on the beach en route to the late spring in the remote Arctic. (Bilingual leader)

## June 2012

**Sunday 17th – Annual Dry Stone Walling Competition** at Open Farm Sunday, Hafod y Llan, Nantgwynant. Come and watch this traditional craft in action, and enjoy the other activities on offer. If you would like to compete, please contact us.

**Date tbc** – Dry stone walling course

## July 2012

**Monday 2nd – Walking with Wolves** - a guided walk through Coed y Bleiddiau (forest of the wolves) looking at wildlife, history and legend. Return via the 'down' train from Dduallt to Tan y Bwlch. Leader Huw Jenkins.

**Wednesday 11th – All Ability Ramble on the Mawddach Trail** – Led by a SNPA warden, this gentle ramble follows a former railway track from Barmouth to Dolgellau and offers striking scenery and beautiful wildlife. Participants of all abilities welcome.

**Monday 16th – Tŷ Hyll Honeybee Centre & Beehive Tearoom official opening** - Iolo Williams will officially open the new centre. We regret this event is by invitation only, but look out for news of the members' open day to be held soon. For more information contact sarah@snowdonia-society.org.uk

**Fancy a paddle?** In summer 2012 the Snowdonia Society would like to organise a half-day introduction to open boat canoeing with a trained instructor. If you would be interested in joining us please contact **sarah@snowdonia-society.org.uk** Note there will be a cost for this activity.

## August 2012

**Saturday 11th – Snowdonia and the Mabinogi** (tbc)
A tour in the area of the ancient Mabinogi legend of Math fab Mathonwy. Visit the places connected with Lleu Llaw Gyffes, Blodeuwedd, Gronw and Gwydion such as Cwm Cynfal and Llyn y Morwynion (lake of the maidens). Led by Prof. Gwyn Thomas. (Bilingual leader)

**Saturday 18th – The geology & scenery of Llanberis** – Join Paul Gannon, author of 'Rock Trails Snowdonia', and discover how volcanoes and glaciations have shaped the Snowdonia landsape.

## September 2012

**Sunday 9th – Snowdonia Underground** at Cwmorthin slate mine. Our popular annual trip visits this substantial disused slate mine on the shores of Llyn Cwmorthin. A reasonable level of fitness is required for this event. Book early to avoid disappointment.

**Sunday 30th – Fabian4 Dyffryn Conwy Mountain Triathlon** - Kayaking, fell running and mountain biking sections. All proceeds to the Snowdonia Society. Volunteers required for marshalling and other tasks – contact netticollister@hotmail.com.
Information for competitors: **www.map17events.org.uk**

## October 2012

**Saturday 20th – Snowdonia Society AGM**. Details tbc.

**Saturday 27th – Fungus Foray**. Details tbc.

For full event details contact Frances on **01286 685498** or **frances@snowdonia-society.org.uk**

**Conservation volunteering workdays** will be held throughout the year, including tree planting, habitat improvement and footpath work, specifically on the Pyg and Miners Tracks on Snowdon. Invasive species clearance will tackle Rhododendron ponticum and Himalayan Balsam in various sites around the Park.
Sign up to receive volunteering updates by contacting **volunteer@snowdonia-society.org.uk**

Cymdeithas Eryri Snowdonia Society, Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail, Caernarfon LL55 3NR

☎ **01286 685498** **info@snowdonia-society.org.uk** **www.snowdonia-society.org.uk**

Cymdeithas Eryri Snowdonia Society reg. charity no.: 253231

# Digwyddiadau Cymdeithas Eryri ⬩ Ebrill i Fedi 2012

Ymunwch â ni i ddarganfod mwy am chwedlau Eryri, effaith natur a dyn ar y dirwedd; neu i ddysgu sut i drwsio'ch beic neu badlo canŵ! Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth am y digwyddiadau, a chofiwch gofrestru o flaenllaw i sicrhau'ch lle. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn fuan iawn! Cynhelir y digwyddiadau yn Saesneg oni bai y dywedir yn wahanol.

*PEIDIWCH AG ANGHOFIO ein **diwrnodau garddio bywyd gwyllt** bob dydd Llun yn Tŷ Hyll. Cysylltwch â Sarah os hoffech ymuno â'n tîm garddio. Dewch i faeddu'ch dwylo!*

## Ebrill 2012

**Dydd Sul 29ain – Gweithdy cynnal a chadw beiciau -** Dewch i baratoi eich beic at yr haf yn ein gweithdy a fydd yn trafod yr holl elfennau o waith cynnal a chadw arferol, o drwsio tyllau i newid ceblau. Archebwch yn gynnar i sicrhau'ch lle.

## Mai 2012

**Dydd Sadwrn 5ed – O'r mynydd i'r môr** – Digwyddiad i ddathlu agoriad swyddogol **Llwybr Arfordir Cymru**. Manylion i'w cadarnhau.

**Dydd Llun 21ain – Adar mudol y gwanwyn ac adar Traeth Lafan, Abergwyngregyn** – Taith gerdded gwylio adar gyda Rhys Jones. Tra bod y coed a'r gwrychoedd yn llawn prysurdeb wrth i adar mudol fagu eu cywion, bydd ambell aderyn yn oedi i fwydo ar y traeth ar eu siwrnai i'r gwanwyn hwyr yn yr Arctic pell. (Arweinydd dwyieithog)

## Mehefin 2012

**Dydd Sul 17eg – Cystadleuaeth flynyddol codi waliau cerrig** yn Sul Fferm Agored, Hafod y Llan, Nantgwynant. Cyfle arall i wylio'r grefft draddodiadol hon ac i fwynhau ystod o atyniadau eraill. Os hoffech gystadlu, cysylltwch â ni.

**Dyddiad i'w cadarnhau – Hyfforddiant codi waliau cerrig**.

## Gorffennaf 2012

**Dydd Llun 2il – Yng nghwmni bleiddiau** - Taith gerdded dywys trwy Goed y Bleiddiau, yn edrych ar hanes, chwedlau a natur. Teithio'n ôl ar y trên o Dduallt i Dan y Bwlch. Arweinydd: Huw Jenkins.

**Dydd Mercher 11eg – Taith gerdded sy'n addas i bawb** – Dewch am dro gyda warden APCE ar hyd y cyn reilffordd rhwng Bermo a Dolgellau, taith gymedrol gyda golygfeydd trawiadol a chyfle i wylio adar a bywyd gwyllt. Croeso i bawb beth bynnag yw eich gallu.

**Dydd Llun 16eg – Agoriad swyddogol Canolfan Gwenyn Mel Tŷ Hyll a'r Ystafell De newydd** gyda Iolo Williams. Ymddiheurwn bod y digwyddiad hwn trwy wahoddiad yn unig, ond rydym yn gobeithio cynnal diwrnod agored i aelodau cyn bo hir. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â sarah@snowdonia-society.org.uk

**Awydd padlo?** Yn ystod haf 2012, hoffai Cymdeithas Eryri drefnu digwyddiad hanner diwrnod yn aber afon Dwyryd gyda hyfforddwr cymwys fel cyflwyniad hawdd i ganŵio cwch agored. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â ni cysylltwch â **sarah@snowdonia-society.org.uk**. Sylwer y codir tâl am y gweithgaredd hwn.

## Awst 2012

**Dydd Sadwrn 11eg – Eryri a'r Mabinogi** (i'w cadarnhau) Taith yn ardal chwedl y Mabinogi, Math fab Mathonwy. Byddwn yn sôn am Lleu Llaw Gyffes, Blodeuwedd, Gronw a Gwydion, ac yn ymweld â mannau a grybwyllir yn y rhan hon o'r stori, sef Mur Castell, Cwm Cynfal, Llech Ronw, a Llyn y Morwynion. Arweinydd: yr Athro Gwyn Thomas. (Dwyieithog)

**Dydd Sadwrn 18eg – Daeareg a thirwedd Llanberis** Dewch am dro gyda Paul Gannon, awdur 'Rock Trails Snowdonia', i ddarganfod sut mae llosg fynyddoedd a rhewlifiannau wedi ffurfio'r tirwedd.

## Medi 2012

**Dydd Sul 9ed – Eryri Tanddaearol** – **Mwynfa lechi Cwmorthin** yw'r lleoliad, eleni, mwynfa lechi segur sylweddol ar lan Llyn Cwmorthin. Mae'r llwybr yn arw felly dylech fod yn weddol heini. Archebwch yn gynnar i sicrhau'ch lle.

**Dydd Sul 30ain – Triathlon Mynydd Dyffryn Conwy Fabian4** Caiacio, rhedeg a beicio mynydd. Elw at Gymdeithas Eryri. Bydd angen gwirfoddolowyr ar gyfer marsialiaid a thasgau eraill - cysylltwch â netticollister@hotmail.com. Cystadleuwyr: gweler **www.map17events.org.uk**

## Hydref 2012

**Dydd Sadwrn 20eg – CCB y Gymdeithas**. Lleoliad i'w cadarnhau.

**Dydd Sadwrn 27ain – Hel ffyngau**. Manylion i'w cadarnahu.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Frances ar **01286 685498** neu **frances@snowdonia-society.org.uk**

Cynhelir diwrnodau gwaith cadwraeth gwirfoddol trwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys gweithgareddau plannu coed, yn benodol ar Lwybr Pyg a Llwybr y Mwynwyr yr Wyddfa. Bydd y gwaith o glirio rhywogaethau ymledol yn taclo Rhododendron Ponticum a Ffromlys Chwarennog mewn sawl man yn y Parc. E-bostiwch ni i gofrestru er mwyn cael y newyddion diweddaraf: **volunteer@snowdonia-society.org.uk**

Cymdeithas Eryri Snowdonia Society, Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail, Caernarfon LL55 3NR

☎ **01286 685498** 🖰 **info@snowdonia-society.org.uk** **www.cymdeithas-eryri.org.uk**

Cymdeithas Eryri Snowdonia Society elusen gof. rhif: 253231